**Rhif: WG30605**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf – Ymgynghoriad Cyhoeddus

Dyddiad cyhoeddi: 13 Mehefin 2017
Camau gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn 13 Gorffennaf 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

OGL © Crown Copyright

**Trosolwg**

Diben yr Adolygiad hwn o'r Farchnad Agored (OMR) a'r Ymgynghoriad Cyhoeddus yw cadarnhau'r adeiladau yng Nghymru nad oes ganddynt Fynediad i seilwaith band eang y Genhedlaeth Nesaf (NGA) sy'n cynnig cyflymder o 30Mbps o leiaf, neu lle nad oes unrhyw gynlluniau i ddarparu seilwaith o'r fath dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r broses hon yn galluogi cwmnïau telathrebu a phob rhanddeiliad arall â diddordeb i ddarparu gwybodaeth am eu cynlluniau a chyflwyno sylwadau ar y broses o fapio adeiladau du / llwyd / a gwyn yn seiliedig ar y wybodaeth honno.

Tynnwyd y set ddata cyfeirio codau post ac adeiladau ar gyfer yr OMR hwn o Bremiwm Sail Gyfeiriadau'r Arolwg Ordnans (Epoch 45 a ryddhawyd 17 Tachwedd 2016). Roedd y set ddata hon yn destun ymarfer glanhau data helaeth gan Lywodraeth Cymru i ddileu dosbarthiadau o adeiladau yr ystyriwyd eu bod yn annhebygol o gynrychioli pwyntiau terfyn a oedd yn gymwys i gael gwasanaeth band eang y genhedlaeth nesaf – er enghraifft: tyrbinau gwynt, llochesi bysiau a dyfrbontydd. Yn dilyn yr ymarfer glanhau data hwn dilëwyd cyfanswm o 315,825 o adeiladau o set ddata'r OMR. Fodd bynnag, mae'r adeiladau hyn wedi'u cynnwys yn y map rhyngweithiol o'r ardaloedd NGA fel ‘adeiladau wedi eu ffiltro’.

Felly, yn ogystal â'r Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn sy'n cadarnhau'r adeiladau yng Nghymru nad oes ganddynt fynediad i fand eang y genhedlaeth nesaf, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gofyn i ddarparwyr seilwaith nad yw'n seilwaith band eang adolygu'r ‘adeiladau wedi eu ffiltro’ ar y map rhyngweithiol er mwyn sicrhau nad oes yr un o'r adeiladau hyn yn bwyntiau terfyn gwirioneddol y bydd angen gwasanaeth band eang y genhedlaeth nesaf arnynt neu weld a oes unrhyw adeiladau sydd wedi'u cynnwys na ddylid bod wedi'u cynnwys. Dylid hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw anghysondebau o ran yr ‘adeiladau wedi eu ffiltro’ fel y nodir yn Adran 8. Wedyn caiff dosbarthiad yr adeilad ei ddiwygio yn unol â hynny.

Rhoddir cyfarwyddiadau a chanllawiau ar sut i adolygu'r ‘adeiladau wedi eu ffiltro’ ar y map rhyngweithiol o'r ardaloedd NGA yn Atodiad B.

Defnyddir yr Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn i wella'r wybodaeth am adeiladau a ddelir am bob pwynt cyfeiriad preswyl, masnachol a sector cyhoeddus

ledled Cymru a bydd yn llywio ymarfer caffael dilynol gan Lywodraeth Cymru i dargedu'r adeiladau gwyn a nodwyd drwy broses yr OMR. Nod Llywodraeth Cymru yw ehangu argaeledd band eang cyflym iawn ledled Cymru.

**Sut i ymateb**

Anfonwch neges e-bost i OMR@wales.gsi.gov.uk wedi'i marcio ag "Ymateb i Ymgynghoriad Cyhoeddus Llywodraeth Cymru" fel y disgrifir yn Adran 8.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.**

Ceir map rhyngweithiol – sy'n dangos adeiladau a chodau post du, llwyd a gwyn, sy'n deillio o ddadansoddiad cychwynnol yr OMR, yn:

http://lle.gov.wales/map/ngaomr2017?lang=cy#m

Bydd set ddata o godau post yng Nghymru, sy'n dangos nifer yr adeiladau cymwys, hefyd ar gael ar y porth ymgynghori.

At hynny, bydd set ddata lawn o Rifau Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN) yng Nghymru hefyd ar gael i'r rhai sy'n cofrestru i ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn, ac ar ôl iddynt lofnodi'r telerau defnyddio trwyddedu cysylltiedig fel y nodir yn Atodiad A.

**Manylion cyswllt**

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am broses yr Adolygiad o'r Farchnad Agored Cymorth Gwladwriaethol hwn cysylltwch â thîm yr OMR drwy anfon neges e-bost i:

OMR@wales.gsi.gov.uk

**Diogelu data**

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch i ni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl

hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, gallai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

**Ymgynghoriad Cyhoeddus**

**Cyflymu Cymru**

**Ymarfer caffael newydd i ymestyn cwmpas Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf (NGA) ymhellach ledled Cymru**

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

Mae prosiect Cyflymu Cymru yn ceisio ehangu argaeledd seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf ledled Cymru a'i nod yw darparu band eang cyflym iawn â chyflymderau lawrlwytho o 30Mbps o leiaf i 690,000 o adeiladau yng Nghymru, a chyflymderau lawrlwytho o fwy na 24 Mbps i adeiladau eraill. Caiff y gwaith o gyflwyno prosiect Cyflymu Cymru ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2017 a disgwylir iddo drawsnewid y dirwedd band eang yng Nghymru a hyrwyddo twf economaidd a chreu swyddi cynaliadwy ym mhob rhan o'r wlad.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ei Hadolygiad cyntaf o'r Farchnad Agored (OMR) a'i hymgynghoriad cyhoeddus cyntaf ym mis Mehefin 2011. Yn dilyn yr OMR hwn a'r ymarfer caffael dilynol, dyfarnwyd contract Cyflymu Cymru i ddarparu band eang cyflym iawn ar gyfer ardal ymyrryd ddiffiniedig i BT ar 19 Gorffennaf 2012 gydag arian cyhoeddus â chymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol o £205m. Yn dilyn ei hymgynghoriad cyhoeddus mwyaf diweddar a gynhaliwyd rhwng 3 Mehefin a 3 Gorffennaf 2014, ymestynnodd Llywodraeth Cymru y contract â BT i gwmpasu ardal ymyrryd ddiffiniedig arall gydag arian cyhoeddus â chymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol o £19.4m.

Bwriedir i'r swm o ryw £225m a ddyrannwyd hyd yma hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaeth band eang cyflym iawn i 690,000 o adeiladau yn yr Ardal Ymyrryd erbyn mis Rhagfyr 2017 ac yn unol â thargedau Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru am weld cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth band eang cyflym iawn erbyn diwedd 2020.

Er mwyn gwneud hyn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu caffael darpariaeth bellach o seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf (a all gynnig cyflymderau lawrlwytho o 30 Mbps o leiaf) mewn ardaloedd o fewn Ardal ei Rhaglen lle nad yw band eang ar gael ar hyn o bryd. Yn ddaearyddol, mae Cyflymu Cymru yn cwmpasu pob cod post ac adeilad cysylltiedig o fewn ffin Cymru.

Felly, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymarfer caffael Agored pellach neu Weithdrefn Gystadleuol gyda Chyd-drafod mewn perthynas â'r adeiladau sy'n weddill ledled Cymru heb seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf (a elwir yn “ardaloedd NGA gwyn”), sy'n cynnwys 15,763 o godau post, sy'n cyfateb i 98,145 o adeiladau.

Cafodd BDUK gymeradwyaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 26 Mai 2016 ar gyfer ei Gynllun Band Eang Cenedlaethol newydd ar gyfer y Deyrnas Unedig (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel NBS 2016). Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal yr ymarfer caffael pellach hwn o dan NBS 2016.

Nod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn yw cadarnhau ardaloedd nad oes ganddynt seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf (sy'n cynnig cyflymder o 30Mbps o leiaf), neu lle nad oes unrhyw gynlluniau i ddarparu seilwaith o'r fath dros y tair blynedd nesaf. Diben hyn yw rhoi cyfle i bob rhanddeiliad â diddordeb – y cyhoedd, busnesau a darparwyr telathrebu – gyflwyno sylwadau ar yr ardaloedd NGA gwyn arfaethedig (sy'n cynnwys adeiladau a chodau post) cyn neilltuo rhagor o gyllid ar gyfer darpariaeth.

Wedyn bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei chynnig terfynol ar gyfer yr ardaloedd NGA gwyn, gan ystyried canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, i Ganolfan Gymhwysedd Genedlaethol BDUK i'w glirio a'i gymeradwyo.

Yn ogystal â hyn, defnyddir yr Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn i wella'r wybodaeth am adeiladau a ddelir am bob pwynt cyfeiriad preswyl, masnachol a sector cyhoeddus ledled Cymru drwy ofyn i ddarparwyr seilwaith nad yw'n seilwaith band eang adolygu'r ‘adeiladau wedi eu ffiltro’ ar y map rhyngweithiol o'r ardaloedd NGA.

## 2. Ymgysylltu â'r Farchnad a Dadansoddiad o'r Ddarpariaeth Bresennol

Er mwyn paratoi ar gyfer yr ymarfer caffael hwn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru OMR newydd rhwng 5 Ionawr 2017 a 3 Chwefror 2017 er mwyn nodi'r ddarpariaeth bresennol ac arfaethedig (o fewn y tair blynedd nesaf) o seilwaith band eang ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys darpariaeth fasnachol gan ddarparwyr band eang y genhedlaeth nesaf sy'n bodoli eisoes a darpar ddarparwyr a darpariaeth a gaffaelwyd o dan gontractau presennol Llywodraeth Cymru â BT.

Cysylltodd Llywodraeth Cymru â phob gweithredwr seilwaith band eang hysbys yn Ardal y Rhaglen a darparwyr eraill roedd yn gwybod bod ganddynt (neu y gallai fod ganddynt) gynlluniau i sefydlu rhwydweithiau newydd ledled y DU i wneud cais ffurfiol am wybodaeth. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r OMR hefyd drwy hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru:

https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgynghoriadau/mynediad-fand-eang-y-genhedlaeth-nesaf-adolygiad-or-farchnad-agored

Gofynnwyd i weithredwyr ddarparu gwybodaeth am eu seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf presennol ac arfaethedig (a all gynnig cyflymderau lawrlwytho o 30 Mbps o leiaf) a rhoi manylion y gwasanaeth presennol a ddarperir ganddynt ar lefel adeilad er mwyn galluogi gwaith mapio mwy gronynnog.

Defnyddiwyd y wybodaeth hon, ynghyd â ffynonellau data Llywodraeth Cymru ei hun, i ddiffinio'r ardal ymyrryd arfaethedig ar gyfer yr ymarfer caffael sydd i'w gynnal.

Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn yn nodi'r ardal ymyrryd arfaethedig honno, er mwyn galluogi pob rhanddeiliad â diddordeb (gan gynnwys y cyhoedd, busnesau, darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd a gweithredwyr seilwaith band eang) i gyflwyno sylwadau ar y cynigion. Yn benodol, mae hyn yn cynnig cyfle i weithredwyr seilwaith band eang i fwrw golwg ar waith mapio Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn cynrychioli'r wybodaeth a ddarparwyd ganddynt yn ystod yr OMR yn gywir.

At hynny, defnyddir yr Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn i wella'r wybodaeth am adeiladau a ddelir am bob pwynt cyfeiriad preswyl, masnachol a sector cyhoeddus ledled Cymru drwy ofyn i ddarparwyr seilwaith nad yw'n seilwaith band eang adolygu'r 'adeiladau wedi eu ffiltro' ar y map rhyngweithiol o'r ardaloedd NGA.

Caiff pob ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ei ystyried yn ofalus a, lle y bo angen, caiff ei ymgorffori yn y map terfynol o'r ardal ymyrryd. Caiff y mapiau terfynol o'r ardal ymyrryd ac adroddiad cryno sy'n cadarnhau manylion y newidiadau a wnaed i'r ardal ymyrryd arfaethedig eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn fuan ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Pan dderbynnir ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb iddynt ac yn esbonio sut mae'r wybodaeth wedi'i thrin. Wedyn caiff yr ardal ymyrryd derfynol ei chyflwyno i Ganolfan Gymhwysedd Genedlaethol BDUK i'w chymeradwyo yn erbyn y Fframwaith Cymorth Gwladwriaethol.

## 3. Fframwaith a Rheolau Cymorth Gwladwriaethol

Mae'r adran hon yn rhoi cyflwyniad byr i Fframwaith Cymorth Gwladwriaethol er mwyn llywio ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Efallai y bydd ymatebwyr am gael eu cyngor proffesiynol/cyfreithiol eu hunain o ran y modd y cymhwysir Fframwaith Cymorth Gwladwriaethol a'r rheolau sy'n ymwneud â'r cynnig hwn.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi '*EU Guidelines for the application of State Aid rules in relation to the rapid deployment of broadband networks' (2013/C 25/01')*.[1] Mae'r canllawiau hyn yn crynhoi egwyddorion polisi'r Comisiwn wrth gymhwyso rheolau Cymorth Gwladwriaethol y Cytundeb at fesurau sy'n cefnogi'r gwaith o sefydlu rhwydweithiau band eang ac yn ceisio sicrhau bod prosiectau Cymorth Gwladwriaethol ar gyfer band eang wedi'u cynllunio'n dda fel eu bod yn targedu methiannau'r farchnad ac yn lleihau'r effeithiau negyddol ar gystadleuaeth.

---

[1] http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:C:2013:025:0001:0026.EN.PDF

Mae'r canllawiau hyn yn mynnu bod ymyriadau cyhoeddus yn cael eu targedu er mwyn lleihau'r risg o atal buddsoddiadau preifat, newid cymhellion buddsoddi masnachol ac, yn y pen draw, ystumio cystadleuaeth.

Gall ymyriadau cyhoeddus wedi'u cynllunio geisio cymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol yn uniongyrchol gan y Comisiwn, neu (fel yn achos y cynnig hwn) geisio caniatâd o dan gynllun cenedlaethol a gymeradwywyd ymlaen llaw gan y Comisiwn.

Bydd angen i brosiectau o dan NBS 2016 ddangos eu bod yn cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol (yn unol â thelerau'r cynllun) er mwyn cael caniatâd gan Ganolfan Gymhwysedd Genedlaethol BDUK.

Mae canllawiau'r Comisiwn yn gwahaniaethu rhwng dau fath o rwydweithiau band eang, sef band eang sylfaenol a rhwydweithiau band eang y genhedlaeth nesaf.

Fel arfer, mae rhwydweithiau band eang sylfaenol yn seiliedig ar dechnolegau a ddefnyddir yn eang ar hyn o bryd megis rhwydweithiau teleffoni â gwifrau sefydlog (sy'n defnyddio technolegau ADSL/ADSL2+s), rhwydweithiau teledu cebl nad ydynt wedi'u huwchraddio (e.e. DOCSIS 2.0), rhwydweithiau symudol (2G/3G (UMTS)), rhai rhwydweithiau mynediad di-wifr sefydlog, a rhwydweithiau lloeren.

Mae rhwydweithiau band eang y genhedlaeth nesaf yn dibynnu'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar elfennau optegol (ffeibr optegol) a gallant ddarparu mwy o allu band eang o'u cymharu â rhwydweithiau band eang sylfaenol sy'n bodoli eisoes. Mae technolegau band eang y genhedlaeth nesaf sy'n gymwys ar hyn o bryd yn cynnwys rhwydweithiau ffeibr (FTTx), rhwydweithiau cebl wedi'u huwchraddio uwch (DOCSIS 3.0) a rhwydweithiau mynediad diwifr uwch penodol a all ddarparu cyflymderau uchel dibynadwy.

Mae canllawiau ar nodweddion technolegau band eang y genhedlaeth nesaf cymwys ar gael gan BDUK.[2]

Mae canllawiau'r Comisiwn hefyd yn mynnu bod ymyriadau cyhoeddus yn sicrhau ‘newid sylweddol’ o ran argaeledd band eang. Dangosir hyn gan y canlynol:

- Buddsoddiadau newydd sylweddol yn y rhwydwaith band eang;
- Mae'r seilwaith newydd yn cyflwyno galluoedd newydd sylweddol i'r farchnad o ran argaeledd a chapasiti gwasanaethau band eang, cyflymderau a chystadleuaeth[3];

[2] https://www.gov.uk/government/publications/2016-nbs-tech-guidelines

Caiff y 'newid sylweddol' o ran argaeledd band eang ei gymharu ag argaeledd rhwydweithiau presennol yn ogystal â rhwydweithiau arfaethedig â chynllun pendant.

Mae canllawiau'r Comisiwn hefyd yn gwahaniaethu rhwng ardaloedd daearyddol ar sail eu seilwaith band eang presennol neu arfaethedig.

- Mae ardaloedd 'gwyn' yn ardaloedd lle nad oes unrhyw seilwaith band eang cymwys a lle nad oes unrhyw seilwaith o'r fath yn debygol o gael ei ddatblygu o fewn tair blynedd;

- Mae ardaloedd 'llwyd' yn ardaloedd lle mai dim ond un rhwydwaith a geir neu lle mai dim ond un rhwydwaith a fydd yn cael ei ddatblygu yn ystod y tair blynedd sydd i ddod;

- Mae ardaloedd 'du' yn ardaloedd lle y ceir o leiaf ddau rwydwaith a redir gan weithredwyr gwahanol neu lle y caiff dau rwydwaith a redir gan weithredwyr gwahanol eu sefydlu yn ystod y tair blynedd sydd i ddod.

Mae'r gwaith mapio daearyddol hwn i nodi ardaloedd Gwyn/Llwyd/Du yn cael ei wneud ar wahân mewn perthynas â rhwydweithiau band eang sylfaenol a rhwydweithiau band eang y genhedlaeth nesaf. Caiff rhwydweithiau band eang y genhedlaeth nesaf eu mapio ar y sail, ymhlith pethau eraill, fod ganddynt gyflymderau lanlwytho llawer uwch (o'u cymharu â rhwydweithiau band eang sylfaenol)[4] ac y gallant ddarparu gwasanaethau band eang ar gyflymder mynediad (lawrlwytho) o fwy na 30Mbps.

Dim ond mewn ardaloedd NGA gwyn o dan NBS 2016 y gellir cynnal ymyriadau cyhoeddus. Mae ardaloedd NGA gwyn yn ardaloedd lle nad oes unrhyw rwydweithiau band eang y genhedlaeth nesaf a lle nad oes unrhyw rwydweithiau band eang y genhedlaeth nesaf yn debygol o gael eu datblygu yn ystod y tair blynedd nesaf.

## 4. Ymyriad Arfaethedig

Darparwyd gwybodaeth ar lefel adeilad gan rai darparwyr gwasanaethau telathrebu yn ystod proses yr OMR ond nid pob un. Felly, gan nad oes unrhyw ddata cyson ar lefel adeilad ar gyfer seilwaith band eang ledled Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi mapio'r ardaloedd, lle roedd yn

---

[3] Gweler Troednodyn 66 yng Nghanllawiau'r Comisiwn sy'n nodi y dylai'r rhwydwaith a gymorthdelir fod o blaid cystadleuaeth (h.y. dylai ddarparu ar gyfer mynediad effeithiol ar lefelau gwahanol o'r seilwaith).

[4] Mae cyflymderau lanlwytho llawer uwch yn golygu dyblu'r cyflymder lanlwytho uchaf sydd ar gael ar rwydwaith (rhwydweithiau) mynediad y genhedlaeth bresennol ar gyfer pecynnau 'hyd at' penodol sydd ar gael ar rwydweithiau band eang sylfaenol yn yr ardal ymyrryd berthnasol o leiaf.

bosibl, ar lefel adeilad â Rhif Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)[5] neu, os nad oedd y wybodaeth hon ar gael, mae'r ardaloedd wedi'u mapio ar lefel cod post. Ar gyfer yr ymarfer mapio ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf diffiniwyd ar lefel adeilad neu ar lefel cod post gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol.

Ar gyfer band eang sylfaenol:

- Caiff cod post ei droi'n llwyd os mai dim ond un gweithredwr seilwaith band eang sy'n darparu gwasanaethau band eang sylfaenol (â chyflymderau o fwy na 2 Mbps) i'r cod post hwnnw.

- Caiff cod post ei droi'n ddu os oes o leiaf ddau weithredwr seilwaith band eang sy'n darparu gwasanaethau band eang sylfaenol (â chyflymderau o fwy na 2 Mbps) i'r cod post hwnnw.

- Mae pob cod post arall yn aros yn wyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni Ymrwymiad Gwasanaeth i Bawb i ddarparu mynediad i gyflymderau band eang sylfaenol o 10Mbps o leiaf o dan ei chynllun Allwedd Band Eang Cymru. Mae'r cynllun hwn, sy'n ategu rhaglen Cyflymu Cymru, yn rhoi cymhorthdal o hyd at £400 i ymgeiswyr cymwys ar gyfer pecynnau band eang 10Mbps ac 20Mbps. Gellir gwneud y cysylltiadau hyn o amrywiaeth o ddarparwyr band eang diwifr yn y sector preifat neu os nad ydynt ar gael gellir cysylltu drwy loeren. Bwriada'r cynllun redeg tan fis Mawrth 2018. Ceir rhagor o wybodaeth am Allwedd Band Eang Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru:

https://beta.llyw.cymru/cyflymu

Felly, yn seiliedig ar y ffaith y gall pob adeilad ledled Cymru gael gafael ar gysylltiad band eang sylfaenol o leiaf drwy gynllun Allwedd Band Eang Cymru, mae'r ardal ddaearyddol gyfan wedi'i lliwio'n llwyd yn Ffigur 1 (Atodiad A) ac mae'n dynodi statws cod post llwyd a/neu ddu cyfunol.

Ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf:

Wrth benderfynu ar statws gwasanaethau band eang y genhedlaeth nesaf, yn awtomatig defnyddiodd Llywodraeth Cymru wybodaeth ar lefel adeilad UPRN pan gafodd y wybodaeth honno gan ddarparwyr gwasanaethau telathrebu. Fodd bynnag, os darparwyd gwybodaeth ar lefel cod post yn unig tybiodd Llywodraeth Cymru fod yr ardal cod post gyfan wedi'i chwmpasu gan wasanaethau band eang y genhedlaeth nesaf.

[5] Mae Rhif Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN) yn ddynodydd alffaniwmerig ar gyfer pob cyfeiriad gofodol ym Mhrydain Fawr a geir yng nghynhyrchion cyfeiriadau'r Arolwg Ordnans. Mae'r UPRN yn darparu dynodydd cynhwysfawr a chyson drwy gydol cylch oes eiddo o ganiatâd cynllunio i'r adeg y caiff ei ddymchwel.

O ran data ar lefel adeilad:

- Caiff adeilad ei droi'n llwyd os mai dim ond un gweithredwr seilwaith band eang sy'n darparu gwasanaethau band eang y genhedlaeth nesaf (â chyflymderau o fwy na 30Mbps) i'r cod post hwnnw.
- Caiff adeilad ei droi'n ddu os oes dau weithredwr seilwaith band eang o leiaf yn darparu gwasanaethau band eang y genhedlaeth nesaf (â chyflymderau o fwy na 30Mbps) i'r cod post hwnnw.
- Mae pob adeilad arall yn aros yn wyn.

O ran data ar lefel cod post:

- Caiff cod post ei droi'n llwyd os mai dim ond un gweithredwr seilwaith band eang sy'n darparu gwasanaethau band eang y genhedlaeth nesaf (â chyflymderau o fwy na 30Mbps) i'r cod post hwnnw.
- Caiff cod post ei droi'n ddu os oes dau weithredwr seilwaith band eang o leiaf yn darparu gwasanaethau band eang y genhedlaeth nesaf (â chyflymderau o fwy na 30Mbps) i'r cod post hwnnw.
- Caiff cod post ei droi'n ddu hefyd os oes un darparwr ar lefel cod post neu un neu ragor o ddarparwyr ar lefel adeilad.
- Mae pob cod post arall yn aros yn wyn (Cyfanswm set ddata OMR ABP, llai adeiladau wedi eu ffiltro, llai'r ardal eithrio (adeiladau a chodau post), llai adeiladau a chodau post du a llwyd NGA. Mae hyn hefyd yn cynnwys adeiladau a wasanaethir gan Allwedd Band Eang Cymru a'r busnesau hynny ledled Cymru sydd wedi gwneud cais i Gynllun Taleb Gwibgyswllt ac sydd wedi cael eu dehongli felly fel darparwr gwasanaethau.

At hynny, mae'r ardal ymyrryd arfaethedig yn cynnwys nifer o ranbarthau "y tu allan i'r cwmpas" (sydd wedi'u lliwio'n felyn ar y map). Mae'r ardaloedd hyn sydd y tu allan i'r cwmpas yn cynnwys Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd sydd wedi'u heithrio o unrhyw drefniadau ariannu ymyriadau yn y dyfodol.[6]

Mae'r ardal ymyrryd arfaethedig yn cynnwys nifer o ardaloedd "cadw golwg" (wedi'u lliwio'n wyrddlas ar y map). Mae darparwyr seilwaith band eang wedi nodi bod darpariaeth fasnachol ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf wedi'i chynllunio ar gyfer yr ardaloedd hyn (o fewn y tair blynedd nesaf). Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r gwelliannau hyn o ran band eang y genhedlaeth nesaf wedi'u cwblhau eto. Ar gyfer yr

---

[6] Prif nod NBS yw gwella argaeledd band eang ledled y DU, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell.

ardaloedd hyn caiff cynlluniau cyflenwyr eu monitro a'u dilysu'n barhaus o fewn y cyfnod o dair blynedd gan Lywodraeth Cymru ac os rhoddir y gorau i'r cynlluniau masnachol caiff yr adeiladau hyn eu mapio fel adeiladau NGA gwyn a byddant yn rhan o'r ardal ymyrryd arfaethedig ac yn gymwys i fod yn destun ymyriad drwy'r mesur cymorth hwn.

Mae'r ardal ymyrryd arfaethedig hefyd yn cynnwys ardaloedd “y tu allan i'r cwmpas - cadw golwg” (sydd wedi'u lliwio'n felyn tywyll ar y map). Mae'r ardaloedd hyn yn ateb y diffiniad o ardal y tu allan i'r cwmpas. Fodd bynnag, yn ystod proses yr OMR, nodwyd bod cynlluniau a/neu rwydwaith y cyflenw(y)r ‘mewn perygl’ o allu darparu gwasanaethau band eang y genhedlaeth nesaf i adeiladau. Felly, ar gyfer yr ardaloedd hyn bydd cynlluniau a/neu rwydwaith y cyflenw(y)r yn destun gwaith monitro parhaus. Os rhoddir y gorau i'r cynlluniau hyn a/neu fod y rhwydwaith yn peidio â gweithredu caiff yr adeiladau hyn eu mapio fel adeiladau NGA gwyn a byddant yn rhan o'r ardal ymyrryd arfaethedig

Yn olaf, mae gan yr ardal ymyrryd nifer o “adeiladau wedi eu ffiltro” hefyd, sef yr adeiladau hynny a ddilëwyd o'r set ddata adeiladau gan yr ymddengys eu bod yn ymwneud â safleoedd nad ydynt yn bwynt terfyn cymwys i ddarparu band eang y genhedlaeth nesaf iddynt neu sy'n anaddas i gyflenwi band eang y genhedlaeth nesaf iddynt (e.e. dyfrbont, pwll ac ati).

Mae'r dadansoddiad mapio o'r ddarpariaeth bresennol ac arfaethedig (o fewn y tair blynedd nesaf) wedi nodi ardaloedd ‘NGA gwyn’ sylweddol sy'n weddill. Crynhoir canlyniad yr OMR yn y tabl isod yn nhermau ‘Gwyn’, ‘Llwyd’, ‘Du’, ‘cadw golwg’, ‘y tu allan i'r cwmpas’, ‘y tu allan i'r cwmpas – cadw golwg’ ac adeiladau ‘wedi eu ffiltro’ NGA[7].

[7] Er mwyn cyfeirio ato, cyfanswm y codau post sy'n cyfateb i'r holl adeiladau ledled Cymru yw 91,132 gan gynnwys adeiladau wedi eu ffiltro). Cyfanswm y codau post sy'n cyfateb i ddim ond y pwyntiau terfyn cymwys ar gyfer darparu band eang y genhedlaeth nesaf h.y. nad ydynt yr adeiladau wedi eu ffiltro, yw 88,692.

| Statws yr Ymgynghoriad | Nifer yr Adeiladau | Cyfansymiau |
|---|---|---|
| Cod Post Du | 352,794 | 1,580,458 |
| Adeilad Du | 26,436 | |
| Cod Post Llwyd | 220,272 | |
| Adeilad Llwyd | 861,299 | |
| Adeilad Gwyn | 98,145 | |
| Y Tu Allan i'r Cwmpas | 15,750 | |
| Y Tu Allan i'r Cwmpas – Cadw Golwg | 3,549 | |
| Adeilad Cadw Golwg | 2,213 | |
| Adeilad wedi'i Ffiltro | 324,102 | 1,904,560 |

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu caffael darpariaeth i dargedu'r ardaloedd 'NGA gwyn' sy'n weddill ledled Cymru sy'n cynnwys 15,763 o godau post, sy'n cyfateb i 98,145 o adeiladau gwyn fel a ganlyn: -

- Drwy gynnal ymarfer caffael newydd o dan NBS 2016 (ac yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015)

Fel y nodwyd uchod, os rhoddir y gorau i gynlluniau masnachol yn yr ardaloedd 'cadw golwg' a/neu'r ardaloedd 'y tu allan i'r cwmpas/cadw golwg' ystyrir bod y rhain yn gymwys i fod yn destun ymyriad a'u bod yn ardaloedd 'NGA gwyn'.

Lle y bo'n bosibl, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu trefnu bod gwybodaeth am ddarpariaeth ar gael ar lefel adeilad o fewn yr ardaloedd cod post gwyn a nodwyd i ymgeiswyr er mwyn sicrhau y gall ceisiadau dargedu'r adeiladau hynny heb ddarpariaeth band eang y genhedlaeth nesaf yn effeithlon. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ar lefel adeilad a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Dylid nodi, er bod yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys mapio darpariaeth band eang sylfaenol, na fydd yr ymarfer caffael yn cyflwyno technolegau band eang sylfaenol. Y bwriad yw rhoi manylion yr holl ardaloedd lle y ceir darpariaeth band eang sylfaenol i ymgeiswyr er mwyn sicrhau, hyd y gellir, mai dim ond seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf a adeiledir dros yr ardaloedd hyn lle y bydd yr adeiladau yn cael mwy na 30Mbps neu lle y caiff cyflymderau eu dyblu o leiaf, yn unol â gofynion NBS 2016. Os na fydd yn bosibl dyblu cyflymderau, bydd yn rhaid i'r cyflenwr ddangos mai'r cynllun yw'r un gorau posibl y gellid ei ddylunio er mwyn cyfyngu ar adeiladu cyflymderau o dan 30Mbps dros rwydweithiau band eang sylfaenol sy'n bodoli eisoes.

## 5. Ymarfer Caffael Newydd

Dechreuodd Llywodraeth Cymru ar ymarfer ymgysylltu â'r farchnad ac ymbaratoi helaeth ym mis Rhagfyr 2016, cynhaliodd 'Ddiwrnod Gwybodaeth i Ymgeiswyr' ar 14 Rhagfyr 2016 a 'Diwrnod Gwybodaeth i Ymgeiswyr' dilynol

ar 6 Ebrill 2017. Yn y Diwrnodau Gwybodaeth i Ymgeiswyr hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei gofynion amlinellol, er mwyn ei gwneud yn bosibl i adborth gan ddarpar ymgeiswyr gael ei ystyried wrth ddylunio'r cynllun, ac er mwyn deall gallu ac adnoddau'r farchnad.  Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gofyn am adborth penodol mewn perthynas â chwestiynau am fodelau cyflawni arfaethedig, strwythurau rhannu'n lotiau a chyfleoedd a fyddai'n gwneud y gofyniad yn ddeniadol i'r farchnad.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ystyried gallu'r sector preifat i gyflawni'r prosiect, yr adnoddau sydd ar gael, a'i hadnoddau a'i gallu ei hun i ddatblygu ei dull ymyrryd. Ar ddiwedd mis Mai 2017, nid oes yr un cwmni o'r sector preifat wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru ac, felly, mae wedi penderfynu y bydd y prosiect yn defnyddio dull ariannu bwlch buddsoddi i gaffael darparwr/darparwyr seilwaith.

Caiff yr ymarfer caffael ei gynnal yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a Chyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus yr UE. Bydd y tendr naill ai'n defnyddio'r Weithdrefn Agored neu'r Weithdrefn Gystadleuol gyda Chyd-drafod yn ôl pob tebyg a chaiff ei gynnal mewn modd tryloyw ac anwahaniaethol, fel sy'n ofynnol gan NBS 2016.

Caiff yr ymarfer caffael ei lunio i fodloni gofynion penodol NBS 2016, sy'n cydnabod bod angen sicrhau'r nifer fwyaf posibl o ymgeiswyr o'r safon orau posibl, yn enwedig drwy leihau'r rhwystrau sy'n atal cyflenwyr rhag cymryd rhan mewn ymarferion caffael ac annog gweithredwyr mwy a llai o faint i gydweithio fel y gellir cyflwyno amrywiaeth o atebion priodol. Roedd hwn yn un o amcanion allweddol yr ymarfer ymgysylltu â'r farchnad hefyd.

Pan gaiff yr ymarfer caffael ei lansio, mae'r ardaloedd gwyn yn debygol o gael eu hisrannu'n nifer o lotiau neu ardaleodd i hyrwyddo hyn. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn diystyru’r posibilrwydd y gallai rhai o'r lotiau hyn neu bob un ohonynt gael eu cyfuno os mai hwn yw'r dull mwyaf manteisiol yn economaidd o fodloni'r gofynion a nodir yn ei Gwahoddiad i Dendro.

Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru fydd sicrhau y caiff yr arian cyhoeddus sydd ar gael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol drwy sicrhau y cwmpesir adeiladau sy'n cael cyflymderau band eang cymharol isel (<24) ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y caiff ardaloedd â chyflymderau uwch eu targedu, yn amodol ar yr angen i gyflawni ‘newid sylweddol’ o ran gallu band eang (fel y nodwyd uchod).

Dyrannwyd hyd at £200m o arian cyhoeddus ychwanegol i Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cyfraniadau gan Lywodraeth Cymru, BDUK, yr UE ac Awdurdodau Lleol y gellir eu neilltuo drwy'r ymarfer caffael sydd ar fin cael ei gynnal.

## 6. Terfynau amser

Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor tan 17:00 ar 13 Gorffennaf 2017.

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben ac ar ôl i Lywodraeth Cymru benderfynu'n derfynol ar yr ardaloedd ymyrryd, caiff Gwahoddiad i Dendro ei gyhoeddi drwy borth caffael Llywodraeth Cymru yn gwahodd cyflenwyr i wneud cais am y cyfle i gyflenwi darpariaeth band eang y genhedlaeth nesaf estynedig yn ystod mis Medi 2017. Bwriedir dyfarnu contract yn ystod 2017. Dylai'r cynlluniau cysylltiedig ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth o seilwaith band eang ddechrau erbyn 2018.

## 7. Ymgynghoriad Cyhoeddus Cymorth Gwladwriaethol

Mae Canllawiau'r UE (ym mharagraff 78) a NBS 2016 yn nodi'r gofynion i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn dilysu'r gwaith o fapio ardaloedd ymyrryd drwy roi cyfle i bob rhanddeiliad â diddordeb gyflwyno sylwadau ar y mesur cymorth arfaethedig.

Diben y ddogfen hon yw cyflawni'r gofynion hynny drwy gyhoeddi disgrifiad o'r mesur cymorth arfaethedig a cheisio adborth gan bob rhanddeiliad â diddordeb. Dangosir y gwaith mapio ar gyfer band eang sylfaenol a band eang y genhedlaeth nesaf ar y mapiau atodedig.

Mae'r map atodedig o Ardal Ymyrryd NGA yn dibynnu ar y diffiniadau o ardaloedd gwyn, llwyd a du, fel y'u nodir yng Nghanllawiau'r UE (ac fel y'u crynhoir uchod). Dim ond yr ardaloedd hynny y nodir eu bod yn rhai Gwyn ar y map a gaiff eu targedu gan Lywodraeth Cymru.  Fodd bynnag, os na fydd yr ardaloedd lle y ceir darpariaeth fasnachol ar hyn o bryd y nodwyd eu bod yn ardaloedd ‘cadw golwg’ a/neu ‘y tu allan i'r cwmpas/cadw golwg’ yn dod yn ffaith, yna mae'n bosibl y gallai'r ardaloedd hyn gael eu hychwanegu at ardal ymyrryd y contract(au).

Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus Cymorth Gwladwriaethol hwn a'r mapiau o'r Ardaloedd Ymyrryd ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf ar gael i bob rhanddeiliad ar wefan Llywodraeth Cymru yn http://lle.gov.wales/map/ngaomr2017?lang=cy#m a byddant hefyd ar gael ar wefan BDUK yn BDUK Table of local broadband projects.

## 8. Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus Cymorth Gwladwriaethol hwn

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am wybodaeth a thystiolaeth ategol mewn perthynas â seilwaith band eang sylfaenol a seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf yn ardal y prosiect ac yn awyddus i glywed gan bob rhanddeiliad perthnasol (gan gynnwys trigolion, busnesau yn ogystal â gweithredwyr seilwaith band eang), yn enwedig mewn ardaloedd y bwriedir eu targedu fel rhan o'r ardal ymyrryd NGA yn Atodiad [A].

Er mwyn osgoi amheuaeth, nid oes angen i chi ymateb i'r ymgynghoriad hwn os nad oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud.

Ar gyfer trigolion a busnesau, pan fydd hyn yn ymwneud â'r gallu i dderbyn gwasanaeth band eang y genhedlaeth nesaf, dylai unrhyw wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus Cymorth Gwladwriaethol hwn gynnwys cyfeiriad yr eiddo neu'r ardal y mae'r cyflwyniad yn ymwneud ag

ef neu â hi a natur y pryder (ond nid oes angen iddynt fod yn gyfyngedig iddynt).

At hynny, ar gyfer trigolion a busnesau dylai unrhyw wybodaeth am yr 'adeiladau wedi eu ffiltro' a geir ar y map rhyngweithiol gynnwys dosbarthiad cywir yr adeiladau a/neu ddisgrifiad o'r adeiladau a disgrifiad o'r anghysondeb. Ceir canllawiau llawn ar sut i adolygu'r rhestr o adeiladau wedi eu ffiltro yn Atodiad B.

Os mai darparwr seilwaith a anfonodd yr ymateb a'i fod yn gwneud sylwadau ar ddosbarthiadau ardaloedd gwyn, llwyd a/neu ddu neu ardaloedd eithrio ar y mapiau atodedig neu yn y data, neu ar y cynhyrchion ar raddfa fawr sydd i'w cynnig drwy'r rhwydwaith a gymorthdelir, yna dylai'r cyflwyniad hefyd gynnwys y wybodaeth benodol a nodir yn Adran 9.

Ar gyfer pob cyflwyniad, byddai Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar petaech yn cysylltu ag OMR@wales.gsi.gov.uk i gofrestru eich bwriad i gyflwyno ymateb a phe gallech gadarnhau'r canlynol yn eich cyflwyniad:

- Nodwch 'Ymgynghoriad Cyhoeddus Cymorth Gwladwriaethol' yn nheitl y pwnc
- Enw eich sefydliad (os yw'n gymwys)
- Cyfeiriad eich sefydliad (os yw'n gymwys)
- Eich enw
- Swydd
- Rhif Ffôn Cyswllt
- Cyfeiriad E-bost

Wedyn bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu mynediad i'r Templed Ymateb (neu is-set ohono os byddwch yn adrodd ar ardal benodol). Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gofyn am gadarnhad gan lofnodwr awdurdodedig fod y wybodaeth a ddarparwyd yn gywir ac yn gyfredol, fel y bo'n briodol.

Anfonwch eich ymatebion erbyn **17:00** ar **13 Gorffennaf 2017**. Dylai ymatebion gan drigolion, busnesau a gweithredwyr seilwaith gael eu cyflwyno o fewn terfynau amser yr ymgynghoriad a gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod. Mae'n bosibl na chaiff ymatebion a dderbynnir ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben ar **17.00** ar **13 Gorffennaf 2017** eu hystyried.

Noder y caiff y data a ddarperir gennych yn eich ymateb eu trin fel petai'n fasnachol gyfrinachol i'ch sefydliad. Fodd bynnag, efallai y bydd angen rhannu rhywfaint o'r data yn eich ymateb, neu'r holl ddata, â'n cynghorwyr proffesiynol a/neu DCMS/BDUK, Ofcom, y Ganolfan Gymhwysedd Genedlaethol a'r Comisiwn Ewropeaidd wrth geisio cymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol.

Dylid hefyd nodi bod defnyddio'r wybodaeth hon i lunio mapiau Cymorth Gwladwriaethol i ddiffinio ardaloedd gwyn, llwyd a du ar gyfer band eang sylfaenol a band eang y genhedlaeth nesaf yn un o ofynion Cymorth Gwladwriaethol. Fodd bynnag, bydd y mapiau cyhoeddedig yn dangos yr ardaloedd Gwyn/Llwyd/Du NGA a'r ardaloedd Band Eang Sylfaenol wedi'u

cyfuno, nid y data a ddarparwyd fesul gweithredwr. Caiff y mapiau terfynol a ddefnyddir at ddibenion caffael eu cyhoeddi yn fuan ar ôl i'r ymgynghoriad cyhoeddus Cymorth Gwladwriaethol hwn ddod i ben ac ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan y Ganolfan Gymhwysedd Genedlaethol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw un o'r uchod, cysylltwch â thîm OMR Llywodraeth Cymru drwy e-bost fel uchod.

## 9. Y Wybodaeth sydd ei Hangen

Mae'r adran hon yn nodi'r wybodaeth y gofynnir i chi ei darparu mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus Cymorth Gwladwriaethol mewn perthynas â phresenoldeb seilwaith band eang.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am wybodaeth, a thystiolaeth ategol, am unrhyw seilwaith band eang sydd gennych ar hyn o bryd, neu am unrhyw gynlluniau i fuddsoddi (dros y tair blynedd nesaf) mewn seilwaith band eang yng Nghymru, lle nad yw'r seilwaith hwnnw, o bosibl, wedi'i gynnwys eisoes yn y mapiau ymyrryd arfaethedig ar gyfer band eang y Genhedlaeth Nesaf a band eang Sylfaenol sydd wedi'u hatodi i'r ddogfen hon.

Yn achos unrhyw seilwaith band eang sydd ar gael eisoes, neu sydd ar y gweill, nad yw wedi'i gynnwys yn yr ardaloedd ymyrryd Cymorth Gwladwriaethol ar y map, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i chi roi gwybodaeth ar lefel adeilad, gan ddefnyddio'r templed a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, i ddangos yr adeiladau sydd wedi'u cynnwys, neu y mae cynlluniau i'w cynnwys, drwy fuddsoddi yn y seilwaith band eang. Ystyr 'wedi'i gynnwys' (neu 'wedi'i basio') i Lywodraeth Cymru yw bod seilwaith rhwydwaith sefydlog ar gael i'r adeilad neu y bydd ar gael iddo, ar ôl rhedeg cebl cysylltu terfynol i'r adeilad o bosibl, neu y gall yr adeilad dderbyn signal radio o ansawdd digonol dros y rhyngwyneb aer, ar ôl gosod antena addas, o bosibl.

Dylai unrhyw wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus Cymorth Gwladwriaethol hwn gynnwys y canlynol, ond nid oes angen iddynt fod yn gyfyngedig iddynt[8]:

- Mapiau manwl ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf sy'n dangos y ddarpariaeth bresennol ac arfaethedig, ar gyfer y tair blynedd nesaf o leiaf.
- Manylion yr adeiladau sydd wedi'u cynnwys neu wedi'u pasio y mae seilwaith rhwydwaith sefydlog ar gael iddynt neu y bydd ar gael iddynt o fewn y tair blynedd nesaf, ar ôl rhedeg cebl cysylltu terfynol i'r adeilad o bosibl, neu y gall yr adeiladau dderbyn signal radio o ansawdd digonol dros y rhyngwyneb aer, ar ôl gosod antena addas, o bosibl.
- Disgrifiad manwl o'r dechnoleg a ddefnyddir (neu a gaiff ei defnyddio) yn eich seilwaith band eang, sy'n dangos sut y mae'n cyrraedd y safonau gofynnol a nodir yng Nghanllawiau Technoleg NGA BDUK.
- Disgrifiad o'r gwasanaethau/cynhyrchion sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd, a disgrifiad ar wahân o'r gwasanaethau/cynhyrchion a gaiff eu cynnig o fewn y tair blynedd nesaf.
- Tariffau ar gyfer gosod cyfarpar, tanysgrifiadau blynyddol/misol a phecynnau/gwasanaethau unigol ychwanegol mewn perthynas â'r gwasanaethau/cynhyrchion hynny (gan nodi a yw'r tariffau hyn yn cynnwys TAW ai peidio).

[8] Mae'r wybodaeth ar gyfer y templed hwn yn cyfateb i'r hyn a nodwyd yn yr Atodiad i ddogfen "Cais OMR am Wybodaeth" a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar 5 Ionawr 2017

- Cyflymder lanlwytho a lawrlwytho arferol i'r rhai sy'n defnyddio'r band eang, a sut y gall y rhain amrywio'n ôl pellter, cynnydd yn y galw neu'r nifer sy'n ei ddefnyddio, y nifer sy'n rhannu'r seilwaith cysylltu, ac ati.
- Dangosyddion priodol yn ymwneud ag ansawdd y gwasanaeth (e.e. cymarebau cystadlu, lled band a ddyrennir i bob defnyddiwr ac ati) gan gynnwys unrhyw nodweddion (e.e. oedi, amrywiaeth llif) sydd eu hangen ar gyfer uwch wasanaethau megis fideo-gynadledda neu ffrydio fideos HD.
- Tystiolaeth i gadarnhau eich bod wedi buddsoddi neu'n bwriadu buddsoddi mewn seilwaith band eang gan gynnwys achosion busnes a thystiolaeth o'r cyllid sydd ar gael i roi'r cynlluniau ar waith.
- Manylion ac amserlenni'n dangos pryd y byddwch yn buddsoddi yn y seilwaith yn y dyfodol, gan gynnwys unrhyw fuddsoddiad ychwanegol y bydd ei angen i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw neu yn y nifer sydd am ddefnyddio'r gwasanaeth.

Mae croeso i chi gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol yn ogystal â'r wybodaeth uchod os ydych yn credu y byddai hynny'n briodol (e.e. dolenni i wefannau cyhoeddus ac ati).

Hoffai Llywodraeth Cymru hefyd glywed barn gweithredwyr ynglŷn â'r mathau o gynhyrchion mynediad ar raddfa fawr yr hoffent eu gweld yn cael eu cynnig ar unrhyw seilwaith rhwydwaith band eang y genhedlaeth nesaf a gymorthdelir sydd newydd ei greu. Mae'n bosibl y bydd y wybodaeth hon yn llywio cynllun yr ymyriad. Noder nad oes rhaid i ni gynnwys y cynhyrchion hyn yn y Gwahoddiad i Dendro (oni bai ei bod eisoes yn ofynnol i ni wneud hynny o dan unrhyw Benderfyniad ynghylch Cymorth Gwladwriaethol)[9].

## 10. Y Camau Nesaf

Yn dilyn unrhyw ymatebion a dderbynnir i'r ymgynghoriad cyhoeddus Cymorth Gwladwriaethol hwn erbyn y dyddiad cau, sef 13 Gorffennaf 2017, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r mapiau terfynol o'r Ardaloedd Ymyrryd yn fuan ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.


Wedyn cyhoeddir y Gwahoddiad i Dendro yn gwahodd Cyflenwyr i wneud cais am y cyfle i gyflawni contract i ddarparu seilwaith band eang estynedig.

Ceir gwybodaeth am Cyflymu Cymru yn:

https://beta.llyw.cymru/cyflymu

[9] Bydd gweithredwyr yn gallu gofyn am fathau newydd o gynhyrchion mynediad ar seilwaith rhwydwaith band eang y genhedlaeth nesaf a gymorthdelir o hyd drwy'r darpariaethau mynediad cyffredinol ffurfiol o dan delerau unrhyw Benderfyniad ynghylch Cymorth Gwladwriaethol yn y dyfodol.


## Atodiad A




**Ffigur 1: Map yr Ymgynghoriad Cymorth Gwladwriaethol sy'n dangos Seilwaith Band Eang Sylfaenol**

Ceir map band eang y genhedlaeth nesaf ynghyd â'r rhestr o godau post sy'n dangos nifer yr adeiladau gwyn cymwys ar wefan Llywodraeth Cymru yn: http://lle.gov.wales/map/ngaomr2017?lang=cy#m

Dangosir map lefel uchel o'r Ardal Ymyrryd isod yn Ffigur 2.




**Ffigur 2: Map yr Ymgynghoriad Cymorth Gwladwriaethol o Seilwaith Band Eang y Genhedlaeth Nesaf**

## Rhestr o Adeiladu NGA Gwyn yn yr Ardal Ymyrryd 2017

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r rhestr o Adeiladau NGA Gwyn yn yr Ardal Ymyrryd 2017 er mwyn sicrhau bod unrhyw ymarfer caffael yn y dyfodol ar gyfer yr Ardal Ymyrryd yn targedu adeiladau cymwys mor effeithlon â phosibl. Felly, bydd set ddata lawn o Rifau Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN) yng Nghymru, a ddosberthir yn adeiladau gwyn, hefyd ar gael i'r rhai sy'n cofrestru i ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn, ac ar ôl iddynt lofnodi'r Drwydded Defnyddiwr Sector Cyhoeddus (a geir ar Borth Ymgynghori Llywodraeth Cymru) a'i dychwelyd i OMR@wales.gsi.gov.uk.

**Atodiad B – Cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio mapiau rhyngweithiol i gyflwyno sylwadau ar adeiladau wedi eu ffiltro**

Bwriedir i'r cyfarwyddiadau canlynol roi arweiniad i ddefnyddwyr sydd am gyflwyno sylwadau ar fanylion data adeiladau a gasglwyd yn ystod cam cychwynnol yr OMR.

1. Er mwyn gweld y wybodaeth ar y mapiau, cliciwch ar y ddolen ganlynol: http://lle.gov.wales/map/ngaomr2017?lang=cy#m

2. Os ydych yn fodlon gwneud hynny, ticiwch y blwch i gadarnhau eich bod yn derbyn y telerau a'r amodau. Bydd hyn yn eich arwain at brif sgrin y mapiau.

3. Mae gan y ddewislen ar ochr chwith y sgrin dri thab, y prif dabiau yw “Allwedd” a “Haenau”

4. Mae'r tab “Allwedd” yn darparu allwedd i'r symbolau a'r cynllun lliwiau a ddefnyddir i ddynodi data ar lefel yr adeilad a chod post, e.e.:
    a. OMR Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf - OMR Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf Adeiladau 'Gwyn'
    b. OMR Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf - OMR Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf Adeiladau 'Nad ydynt yn Wyn'
    c. OMR Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf - OMR Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf Adeiladau 'Wedi'u Ffiltro'. Adeiladau wedi'u ffiltro yw'r rhai a ddilëwyd o'r set ddata adeiladau am ei bod yn ymddangos eu bod yn ymwneud â safleoedd sy'n anaddas i gyflenwi band eang y genhedlaeth nesaf iddynt (e.e. dyfrbont, pwll ac ati).
    d. OMR Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf - OMR Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf Adeiladau Codau Post

5. Mae'r tab “Haenau” yn galluogi'r defnyddiwr i agor / cau haenau gwahanol sy'n ymwneud â'r dosbarthiadau gwahanol hyn o wybodaeth am adeiladau a chodau post – gan alluogi'r defnyddiwr, er enghraifft, i wneud i'r mapiau ddangos adeiladau “wedi'u ffiltro” yn unig.

6. Er mwyn archwilio'r data ar lefel adeilad, cliciwch ar y map a defnyddiwch y porwr i symud y map o Gymru er mwyn dangos yr ardal ofynnol. Defnyddiwch y symbolau chwyddo / lleihau (yng nghornel chwith uchaf y map) er mwyn dewis yr union adeilad sydd ei angen.

7. Os bydd y defnyddiwr am gyflwyno sylwadau ar adeilad penodol – er enghraifft os yw “wedi'i ffiltro” ar gam – bydd clicio ar yr adeilad yn

achosi i flwch adborth ymddangos. Bydd y blwch hwn yn gofyn am sylwadau a manylion cyswllt (dim ond “sylwadau” sy'n faes gorfodol) – a gyflwynir wedyn i Lywodraeth Cymru. Caiff copi o'r adborth ei anfon drwy e-bost at y defnyddiwr os darperir cyfeiriad e-bost.